

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws. Rwy'n danfon llythyr atoch ddiwrnod ynghynt yr wythnos hon gan fod angen eich ymatebion ar fyrder.

Ail – agor graddol – mae'n debygol eich bod wedi clywed datganiad y Gweinidog Addysg Kirsty Williams ddoe a'r bwriad o ail – agor ysgolion yn raddol ar Fehefin y 29ain gyda'r tymor bellach yn gorffen ar Orffennaf 27ain. Rydym yn disgwyl canllawiau pellach o Lywodraeth Cymru yr wythnos nesaf ond mae'n debygol taw pwrpas ail-agor graddol fydd i ddarparu cyfleoedd i ddal fyny gyda'r staff a pharatoi ar gyfer Medi. Mi fydd yr ysgol yn gweithredu mewn ffordd wahanol iawn i'r arfer gyda'r ffocws ar les ac iechyd meddwl. Mi fydd cyfle i bob plentyn (os ydy'r rhieni'n dymuno) i groesi trothwy y drws cyn mis Medi er mwyn cynorthwyo a chefnogi'r trefniadau o ddysgu yn y cartref a fydd yn parhau. Y bwriad yw darparu cyfle i grwpiau o ddisgyblion (tua 6 ar y tro) i dreulio diwrnod neu o bosib hanner diwrnod yn wythnosol yn eu dosbarthiadau. Ni fydd mwy na 1/3 o gapasiti'r ysgol yn bresennol ar unrhyw amser. Mi fydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ymbellhau cymdeithasol 2 fetr ac yn trefnu rhaglen iechyd a diogelwch gynhwysfawr er mwyn diogelu pawb. Pan fyddwn yn gwybod yn union faint sy'n bwriadu dychwelyd yn ystod Mehefin a Gorffennaf mi fyddwn yn medru darparu manylion pellach yn nodi canllawiau a gweithdrefnau manwl.

Holiadur 1 - diolch i chi am gwblhau'r wybodaeth ar gyfer yr holiadur cyffredinol yn ystod yr wythnos, cafwyd 357 o ymatebion ar gyfer gweld beth oedd eich bwriad os fyddai'r ysgol yn ail-agor. Cawsom 357 ymateb i'r cwestiwn: Beth fyddai eich bwriad, AR HYN O BRYD pe bai'r ysgol yn agor rhywbryd yn ystod yr hanner tymor nesaf (rhwng Mehefin a Gorffennaf) ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol? A fydddech chi'n anfon eich plentyn i'r ysgol?

	Meithrin	Derbyn	Bl.1	Bl.2	Bl.3	Bl.4	Bl.5	Bl.6	Cyfanswm
Byddwn, yn bendant	9	7	3	4	9	5	3	9	49
Byddwn, mwy na thebyg	7	7	3	5	9	9	6	16	62
Dwi ddim yn siwr	21	16	15	22	15	10	8	12	119
Na fyddwn, yn bendant	23	21	12	18	19	12	17	5	127
Nifer o ymatebion	60	51	33	49	52	36	34	42	357

PWYSIG – HOLIADUR 2 (ymddiheuriadau am un arall) – mae'r ddolen isod ar gyfer **HOLIADUR YR AWDURDOD ADDYSG** sy'n gofyn yn benodol i **BOB TEULU GWBLHAU'R MANYLION** er mwyn darganfod **FAINT YN UNION O DDISGYBLION** fyddai'n bwriadu dychwelyd. Mi fydd rhaid i ni dderbyn y wybodaeth CYN 5 O'R GLOCH YFORY (dydd Gwener, Mehefin 5ed) os gwelwch yn dda.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k5kKi6E0tztNIMtynpgM_GBUQU9SOTQ4OFZUQ1g2WVo2VzISOVBESFRENy4u

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch,

R C Williams, Pennaeth, 04/06/2020

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping safe and well and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus. I am sending you a letter a day earlier this week as your responses are urgently needed.

Gradual re - opening - it is likely that you heard the statement by the Education Minister Kirsty Williams yesterday and the intention to gradually re - open schools on June 29th with the term now ending July 27th. We are awaiting further guidance from the Welsh Government next week but it is likely that the purpose of a phased re-opening will be to provide opportunities to catch up with staff and prepare for September. The school will be operating in a very different way than usual with the focus on wellbeing and mental health. There will be an opportunity for all children (if parents wish) to cross the doorstep before September in order to assist and support the ongoing home learning arrangements. The intention is to provide groups of pupils (approximately 6 at a time) with the opportunity to spend a day or possibly half a day weekly in their classes. No more than 1/3 of the school capacity will be present at any one time. The school will make every effort to achieve 2-metre social distances and we will organize a comprehensive health and safety program to protect everyone. When we know exactly how many intend to return during June and July we will be able to provide further details setting out detailed guidelines and procedures.

Questionnaire 1 - thank you for completing the information for the general questionnaire during the week, 357 responses were received to find out what you intended if the school re-opened. We received 357 responses to the question: What are your intentions, in the event of the school opening sometime during the next half term (June to July) and following the Welsh Government's guidelines on social distancing? Would you send your child to school?

	Nursery	Reception	Yr.1	Yr.2	Yr.3	Yr.4	Yr.5	Yr.6	Total
Yes, definitely	9	7	3	4	9	5	3	9	49
Yes, most probably	7	7	3	5	9	9	6	16	62
I'm not sure	21	16	15	22	15	10	8	12	119
Definitely not	23	21	12	18	19	12	17	5	127
Number of responses	60	51	33	49	52	36	34	42	357

IMPORTANT - QUESTIONNAIRE 2 (apologies for another) - the link below is for the **QUESTIONNAIRE FROM THE EDUCATION AUTHORITY** that specifically asks **EVERY FAMILY TO COMPLETE THE DETAILS** to find out **EXACTLY HOW MANY PUPILS** would return. We will need to receive the information **BEFORE** 5 o'clock TOMORROW (Friday, June 5th) please.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k5kKi6E0tztNIMtpongM_GBUQU9SOTQ4OFZUQ1g2WV02VzISOVBESFRENY4u

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Best wishes to you all

R C Williams, Headteacher, 04/06/2020